*This report is also available in English* **EITEM AGENDA 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17 Gorffennaf 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones – Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Bydd yr adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft i'r Aelodau ar gyfer 2022/23.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Fframwaith Sicrhau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol CIPFA/Solace (2016) (y Fframwaith) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Tân ac Achub gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2022/23 wedi'i nodi yn Atodiad 1 ac mae wedi'i baratoi yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Fframwaith. Mae'r flaenraglen waith ar gyfer 2023/24 wedi'i chynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.

4 Cyhoeddir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel rhan o gynhyrchu'r datganiadau ariannol statudol ar gyfer 2022/23. Gwneir asesiad gan yr archwilydd allanol i gadarnhau a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol ac a yw wedi'i lunio yn unol â'r Fframwaith.

5 Yn dilyn yr asesiad hwn, cyflwynir fersiwn derfynol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r Awdurdod i'w gymeradwyo a'i gyhoeddi'n fewnol ac yn allanol wedyn.

**ARGYMHELLIAD**

6 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r trefniadau llywodraethu a amlinellir yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2022/23;
(ii) nodi'r flaenraglen waith ar gyfer 2023/24; a
(iii) chymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2022/23.

## CEFNDIR

7 Ers 2010/11 bu'n ofynnol i bob corff llywodraeth leol, yn ôl Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2015, baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gyhoeddir fel rhan o'r Cyfrifon Statudol.

8 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw asesu a dangos bod system gadarn o lywodraethu corfforaethol ar draws y sefydliad.

## GWYBODAETH

9 Yn 2016, cyhoeddodd CIPFA a Solace fframwaith llywodraethu newydd, sef Sicrhau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith (y Fframwaith). Strwythurwyd y Fframwaith o amgylch saith egwyddor llywodraethu sy'n galluogi'r Awdurdod i ddangos ei drefniadau cyffredinol a nodi sut y mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

10 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw nodi trefniadau'r Awdurdod i sicrhau:

- (i) bod busnes yn cael ei gynnal yn unol â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol;
- (ii) bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac y cyfrifir amdano'n briodol; a
- (iii) bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n ddiwastraff, effeithlon ac effeithiol i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt er budd pobl leol.

11 Nodir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2022/23 yn Atodiad 1. Mae'n rhoi trosolwg o'r trefniadau llywodraethu ac yn cadarnhau'r cynllun gwaith ar gyfer 2023/24.

12 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei adolygu gan Archwilio Cymru i gadarnhau ei fod yn gyson â'i wybodaeth am yr Awdurdod a'r datganiadau ariannol.

13 Ar ôl ei gyhoeddi, bydd perfformiad yn erbyn blaengynllun gwaith 23/24 yn cael ei fonitro drwy Fwrdd Perfformiad Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth bob chwarter.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod ac yn dangos y trefniadau llywodraethu sydd ar waith i alluogi'r Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i’r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Amherthnasol |
| **Cyfreithiol** | Paratowyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn unol â'r safonau rhagnodedig. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Mae fframwaith llywodraethu cadarn yn cefnogi trefniadau rheoli risg yr Awdurdod. |